# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 8 Chwefror 2007

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch a fydd ei ymweliad ag Aberystwyth ar 15 Chwefror 2007 yn golygu cost i gyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac, os bydd, beth yw'r amcan gost. (WAQ49311)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau*

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** Pryd fydd y Gweinidog yn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid symud ymlaen gydag adeiladu ffordd osgoi Gartholwg. (WAQ49314)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch amserlen ar gyfer cyfreithloni gwerthu 'smokies'. (WAQ49304)

**Alun Ffred Jones (Caernarfon):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y rhesymau dros y newidiadau arfaethedig i is-ddeddfau'r draethlin, o ran i) crancod y glannau a ii) cocos, ac a wnaiff nodi ar ba dystiolaeth y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud. (WAQ49302)

**Alun Ffred Jones (Caernarfon):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr amserlen ar gyfer gweithredu'r newidiadau arfaethedig i is-ddeddfau'r draethlin ar gyfer i) crancod y glannau a ii) cocos, a'r cyfle am ymgynghoriad cyhoeddus. (WAQ49303)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Sawl claf o Gymru yr oedd y driniaeth a gawsant yn Weston Super Mare wedi'i gytuno arno gan lawfeddyg yng Nghymru cyn i'r driniaeth gael ei chynnal. (WAQ49304)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Sawl claf o Gymru a gafodd eu trin mewn ysbytai yn Lloegr y llynedd a beth oedd y gost i gyllideb iechyd Cymru ymhob achos. (WAQ49307)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Faint o gleifion o Gymru a gafodd driniaeth yn Lloegr drwy ymweld â llawfeddygon dan y Cynllun Ail Gynnig. (WAQ49308)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Pa archwiliadau a wneir o gymwysterau a chofnodion llawfeddygon sy’n ymweld ac sy’n gwneud llawdriniaethau ar gleifion o Gymru sy’n cael eu trin dan y Cynllun Ail Gynnig yn Lloegr. (WAQ49309)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** Faint o gleifion o Gymru sydd wedi cael llawdriniaeth gywirol yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro ers derbyn llawdriniaeth ar y pen-glin yn Weston-Super-Mare a beth fu'r gost ariannol. (WAQ49310)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau faint o arian fydd yn cael ei ddarparu gan y Llywodraeth i ariannu triniaeth Brachytherapi ar gyfer cleifion sy’n dioddef o ganser y brostad yng Nghymru. (WAQ49305)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Yn dilyn ymateb y Prif Weinidog i OAQ2266 ar ariannu triniaeth Brachytherapi, pryd fydd y gwasanaeth hwn ar gael i gleifion yng Nghymru. (WAQ49306)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am benderfyniad Comisiwn Iechyd Cymru i beidio ag ariannu triniaeth ysgogi yn nwfn yr ymennydd i’r rhai sy’n dioddef clefyd Parkinson yng Nghymru. (WAQ49312)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o refeniw y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei golli oherwydd y polisi presgripsiynau am ddim. (WAQ49313)